| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **25 Mawrth 2025** |
| Pwnc: | **Cynyddu'r Cynnig Craidd i Ofalwyr Maeth** |
| Aelod Portffolio: | |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Fôn Roberts** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Keith Walters**<br>**07920547560**<br>**KeithWalters@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | Pawb |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Rydym yn cynnig cynyddu'r lwfansau maethu ar gyfer 2025-26 yn unol â'r cynnydd a argymhellir gan Lywodraeth Cymru i'r isafswm lwfans cenedlaethol. Hyd yma nid ydym wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r isafswm lwfans cenedlaethol, fodd bynnag rydym wedi ymorol am gynnydd o 5%, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y gyllideb ar gyfer 2025-26. Er mwyn cystadlu â darparwyr yn y sector breifat, rydym yn cynnig ailstrwythuro'r taliadau sgiliau i gynnwys 3 haen yn hytrach na 5 a chynyddu'r disgownt yn y dreth gyngor o 50% i 100%. Rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r isafswm lwfans cenedlaethol.

**<u>Tueddiadau o ran y Lwfansau Maethu</u>**

| Oed | 0-4 | 5-10 | 11-15 | 16 |
|---|---|---|---|---|
| 2024/25 | 222.74 | 202.79 | 216.86 | 270.76 |
| % Cynnydd | 3% | 3% | 5% | 5% |
| 2023/24 | 216.24 | 196.86 | 206.51 | 257.87 |
| % Cynnydd | 8% | 8% | 0% | 3% |
| 2022-23 | 200.28 | 181.97 | 205.75 | 249.68 |
| % Cynnydd | 2% | 2% | 2% | 2% |
| 2021-22 | 196.35 | 178.4 | 201.72 | 244.78 |

**<u>Tueddiadau o ran y Lwfansau Sgiliau</u>**

| Lefel: | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| 2024/25 | 78.81 | 131.36 | 157.63 | 210.18 |
| % Cynnydd | 0% | 0% | 0% | 0% |
| 2023/24 | 78.81 | 131.36 | 157.63 | 210.18 |
| % Cynnydd | 0% | 0% | 0% | 0% |
| 2022-23 | 78.81 | 131.36 | 157.63 | 210.18 |
| % Cynnydd | 2% | 2% | 2% | 2% |
| 2021-22 | 77.26 | 128.78 | 154.54 | 206.06 |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Lwfansau Sgiliau newydd Arfaethedig**

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 140.00 |
| Lefel 2 | 180.00 |
| Lefel 3 | 220.00 |

| | | Old Rate | Annual Cost | New Rate | Annual Cost | Variance |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Total Old level 1/ New Level 1 | 1 | - | - | 140.00 | 7,300.01 | 7,300.01 |
| Total Old Level 2/ New Level 1 | 22 | 78.81 | 90,406.40 | 140.00 | 160,600.13 | 70,193.73 |
| Total Old Level 3/ New Level 2 | 18 | 131.36 | 123,290.84 | 180.00 | 168,943.00 | 45,652.15 |
| Total Old Level 4/ New Level 2 | 12 | 157.63 | 98,631.42 | 180.00 | 112,628.66 | 13,997.24 |
| Total Old Level 5/ New Level 3 | 4 | 210.18 | 43,837.58 | 220.00 | 45,885.75 | 2,048.17 |
| | **57** | | 356,166.25 | | **495,357.55** | **139,191.30** |

| | |
|---|---|
| Additional Cost for skills | 139,191.30 |
| Additional Cost for additional council tax reduction | 52,472.80 |
| Total Additional Cost | 191,664.10 |
| Less Inflation applied to skills | 20,382.59 |
| Net additional cost | 171,281.51 |

Mae'r gost gyfystyr â throsglwyddo 7 Lleoliad Maethu Annibynnol newydd i ddarpariaeth fewnol. Fel gwasanaeth, credwn fod y targed hwn yn gyraeddadwy.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Fe wnaethom ystyried cynyddu'r lwfansau maethu yn unol â chwyddiant yn unig; fodd bynnag ni fyddai hyn y gystadleuol a byddem mewn perygl o golli gofalwyr maeth mewnol i'r sector breifat.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Er nad ydym yn gofyn am gyllid ychwanegol, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnig gan fod yr ailstrwythuriad arfaethedig i'r taliadau sgiliau a'r cynnydd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor yn uwch na'r isafswm lwfans statudol y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei bennu.

## Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi - buddsoddi i arbed


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | I. Mae cynnydd yn y galw am Ofalwyr Maeth. Mae’n rhaid i’r Gwasanaeth Maethu chwilio am leoliadau maethu allanol yn amlach. Hefyd, yn ychwanegol i hyn, mae ein Gofalwyr Maeth yn heneiddio ac felly mae’n debyg y bydd Gofalwyr Maeth yn gadael Maethu Cymru Môn yn ystod y blynyddoedd nesaf.<br>II. Mae Maethu Cymru (sy’n cynnwys Gwasanaethau Maethu’r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru) yn ceisio cysoni lwfansau a ffioedd maethu, fodd bynnag mae gan bob rhanbarth ei blaenoriaethau ei hun o ran chwilio am leoliadau. Er enghraifft, mae Gogledd Cymru’n wahanol iawn i ardal Caerdydd o ran y gystadleuaeth y mae’n ei hwynebu gan Asiantaethau Maethu Annibynnol eraill ac asiantaethau trydydd sector. Bydd y ddeddfwriaeth a rheoliadau ‘Dileu Elw’ yn dod i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2026 ar gyfer darparwyr newydd, ac ym mis Ebrill 2027 ar gyfer darparwyr presennol.<br>III. Mwy a mwy o gystadlu yn erbyn Asiantaethau Maethu Annibynnol, a’r pecynnau tâl y maent yn eu cynnig erbyn hyn. Hefyd, mae sôn am daliadau sylweddol i Ofalwyr Maeth newydd.<br>IV. Mae’r argyfwng costau byw yn broblem wirioneddol ac nid yw pobl yn hyderus y gallant fforddio bod yn Ofalwyr Maeth gyda’r Awdurdod Lleol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Ydi - drwy recriwtio mwy o ofalwyr maeth byddwn yn llai dibynnol ar y farchnad breifat. |
| 3 | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Rydym wedi bod yn gweithio gyda’r 5 awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru.<br>Pob blwyddyn mae’r Rhwydwaith Maethu - elusen maethu sy’n gweithredu ar hyd a lled y DU - yn cyhoeddi canllawiau ar y lwfansau a thaliadau.<br><br>Mae’r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru’n talu lwfansau a ffioedd ychwanegol ar wahân. |

## Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

| Lwfansau Maethu | Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 222.74 | 222 | 212 | 188 | 220 | 215 |
| 5-10 | 202.79 | 216 | 193 | 171 | 202 | 230 |
| 11-15 | 216.86 | 216 | 216 | 171 | 202 | 245 |
| 16 | 270.76 | 253 | 241 | 213 | 251 | 255 |

Mae gan bob Awdurdod Lleol ei ffordd ei hun o bennu'r ffioedd ychwanegol h.y. naill ai fesul plentyn, neu lefel sgil, neu'r ddau (fel sy'n digwydd yn Ynys Môn).

Mae'r tabl isod yn darparu eglurhad cryno ac yn nodi faint o dâl y mae awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru yn ei gynnig i Ofalwyr Maeth :-

| **Ffioedd Ychwanegol / Taliadau Sgiliau:-** | |
|---|---|
| **Conwy** | • 1 Plentyn - £250.08 yr wythnos<br>• 2 Blentyn - £375.12 yr wythnos<br>• 3 Plentyn - £625.20 yr wythnos<br>***Bydd Conwy'n cyflwyno cyfradd safonol o £250 y plentyn yn fuan iawn. |
| **Sir Ddinbych** | System haenau - seiliedig ar sgiliau a phrofiad, a nifer y plant yn y lleoliad -<br>**Haen 1** / **Haen 2** / **Haen 3**<br>**1 Plentyn** £90.35 / £150.59 / £210.82<br>**2 Blentyn** £120.46 / £210.82 / £301.17<br>**3 Phlentyn** £150.59 / £271.05 / £391.52<br>**4 Plentyn** £180.70 / £331.28 / £481.87 |
| **Wrecsam** | • Sgiliau QCF - taliad ar gyfer 1 plentyn - £128<br>• Sgiliau QCF - taliad ar gyfer 2 blentyn - £128<br>• Sgiliau QCF - taliad ar gyfer 3 phlentyn neu ragor - £256 |
| **Gwynedd** | • Yn syth ar ôl derbyn cymeradwyaeth - £107<br>• Ar ôl maethu am flwyddyn gydag 1 plentyn yn y lleoliad - £161<br>• 2 blentyn - £214<br>• 3 plentyn - £321<br>• Eithriadau gydag 4 yn y lleoliad - £429 |
| **Sir y Fflint** | • Lefel 1 - £0<br>• Lefel 2 - £65<br>• Lefel 3 - £125<br>• Lefel 4 - £230 |
| **Ynys Môn** | • Lefel 1 - £0<br>• Lefel 2 - £78.81<br>• Lefel 3 - £131.36<br>• Lefel 4 - £157.63<br>• Lefel 5 - £210.18 |

<table>
<tr><th colspan="3">Dd – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Wedi’i gopïo o wefan y Rhwydwaith Maethu:-<br><table>
<tr><th></th><th>0-4 oed</th><th>5-10 oed</th><th>11-15 oed</th><th>16-17 oed</th></tr>
<tr><td>Cymru</td><td>£212</td><td>£193</td><td>£193</td><td>£241</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>4</td><td>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.</td><td>Mae pob un o Ofalwr Maeth prif lif yr Awdurdod Lleol yn byw ar yr ynys. Maent wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol ynglŷn â’r lwfansau a ffioedd maethu. Mae’n eitem reolaidd ar agenda’r Fforwm Maethu.</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</td><td>Yn aml iawn caiff plant a phobl ifanc eu paru â gofalwyr maeth sydd ddim bob amser yn cwrdd â’u holl anghenion - nid yw hyn yn golygu ein bod yn mynd ati’n fwriadol i ddiystyru eu hanghenion, ac mae i wneud â’r ffaith bod prinder Gofalwyr Maeth a all gynnig rhywbeth gwahanol i gwrdd ag anghenion plentyn/person ifanc. Er enghraifft, mae prinder gofalwyr maeth sy’n siarad Cymraeg ar yr ynys y gallwn eu paru â phlant/pobl ifanc Cymraeg. Gallwn wneud iawn am hyd drwy recriwtio mwy o Ofalwyr Maeth Cymraeg. Mae hefyd yn deg dweud ein bod ni, wrth baru’r plant a phobl ifanc â’r dewis sydd ar gael, yn cyfaddawdu ar nodweddion fel Oed, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Beichiogrwydd, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw (rhywedd) a Chyfeiriadedd Rywiol (nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf).</td></tr>
<tr><td>6.</td><td>Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy’n profi anfantais economaidd-</td><td>Fel y nodwyd uchod, mae’r argyfwng costau byw yn broblem wirioneddol ac nid yw pobl (yn enwedig Gofalwyr Maeth) yn hyderus y gallant fforddio bod yn Ofalwyr Maeth gyda’r Awdurdod Lleol. Mae hyn ynghyd â’r ffaith bod Asiantaethau Maethu Annibynnol yn cynnig pecynnau ariannol sylweddol yn golygu ei bod hi’n anodd i Awdurdodau Lleol recriwtio a chadw gofalwyr maeth.</td></tr>
</table>

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | gymdeithasol . | |
| 7. | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel y crybwyllwyd uchod, wrth baru plant a phobl ifanc, yn aml iawn mae'n rhaid i ni gyfaddawdu a lleoli plant/pobl ifanc Cymraeg ar aelwydydd di-gymraeg. Mae oherwydd nad oes gennym ddigon o Ofalwyr Maeth sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Drwy gynnig gwell lwfansau gallwn annog mwy o siaradwyr Cymraeg i wneud cais i Faethu (neu holi am Faethu) ac efallai annog pobl sy'n maethu drwy asiantaeth annibynnol ar hyn o bryd i faethu gyda'r awdurdod lleol.<br><br>Yn sgil dyhead Llywodraeth Cymru i 'Ddileu Elw' o ofal mae'n bosib y bydd nifer o asiantaethau maethu annibynnol yn cael eu gorfodi i gau erbyn mis Ebrill 2027. Felly, mae'n bosib y bydd yn rhaid i Ofalwyr Maeth naill ai gofrestru gydag elusen (sy'n ein gorfodi ni fel awdurdod lleol i dalu ffi debyg i'r asiantaethau annibynnol) neu gofrestru gyda'r awdurdod lleol. Gallem fanteisio ar y cyfle hwn. |

| E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | UDA - cefnogi'r cynnig |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Rhan o'r UDA |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Fel yr uchod |
| 5 | Eiddo | Dim ymateb |
| 6. | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Dim ymateb |
| 7. | Caffael | Dim ymateb |
| 8. | Sgriwtini | I'w gadarnhau |
| 9 | Aelodau Lleol: | I'w ystyried gan y Cyngor Llawn |

| F - Atodiadau |
|---|
| |

| Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English